Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Treletert**

**Ysgol Ger Y Llan**
**Heol Tyddewi, Treletert**
**Hwlffordd**
**SA62 5SL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/06/2024


***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cylch Meithrin Treletert

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Treletert |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Arolygiad ar ôl cofrestru oedd hwn. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae gan y plant lais cryf ac maent yn hyderus y caiff eu teimladau a'u hanghenion eu parchu. Maent yn hapus, wedi setlo, ac mae ganddynt ymdeimlad o gyflawniad yn yr hyn y maent yn ei wneud. Mae'r plant yn rhyngweithio â'i gilydd ac yn rhyngweithio â'r staff mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad yn fawr ac yn dod yn fwy annibynnol.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach drwy ddilyn eu polisïau a'u gweithdrefnau yn dda. Mae eu rhyngweithio yn gadarnhaol, yn garedig ac yn llawn anogaeth. Mae'r staff yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn llwyddiannus. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o anghenion unigol y plant a'u dewisiadau, a chaiff y Gymraeg ei hyrwyddo.

Mae'r lleoliad ar dir ysgol gynradd Ger y Llan. Mae gan yr arweinwyr systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod y safle yn gynnes, yn gyfforddus, ac yn groesawgar. Mae'r arweinwyr yn trefnu bod adnoddau o ansawdd da mewn ardaloedd gwahanol o'r ystafell.

Mae'r arweinwyr yn drefnus iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'u gofynion rheoliadol ac maent yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent wedi cwblhau adroddiad effeithiol ar ansawdd y gofal sy'n llywio gwelliannau. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff gwiriadau addasrwydd effeithiol a datblygiad proffesiynol eu hyrwyddo. Mae partneriaethau da ar waith.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn teimlo'n hyderus y caiff eu teimladau a'u hanghenion eu parchu gan y staff. Maent yn symud o gwmpas yn rhydd ac yn dewis eu hadnoddau a'u hardaloedd dymunol. Er enghraifft, maent yn creu pitsas a chrempogau gyda thoes chwarae, ac yn eu symud i'r gegin chwarae rôl i bobi. Mae'r plant yn teimlo'n hyderus y caiff eu hanghenion eu parchu'n llawn. Pan wnaethant ofyn am gael mynd allan i'r awyr agored, gweithredodd y staff ar hyn; tra gwnaeth y plant a oedd yn dymuno chwarae dan do oherwydd y tywydd gwael aros dan do o ddewis. Mae'r plant yn teimlo y gweithredir ar eu dewisiadau. Gwnaethant ddewis esgidiau glaw o unrhyw liw a dillad glaw. Gwrandewir ar y plant. Gwnaethant ddewis paentio llun o lolis ac roeddent yn falch iawn pan gawsant eu harddangos.

Mae'r plant yn teimlo'n hapus, wedi setlo ac yn hyderus. Maent yn cyrraedd y cylch yn gwenu wrth iddynt gael eu cyfarch gan staff cyfarwydd. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi pan fyddant yn cael eu canmol am nodwyddo mwclis ar les yn llwyddiannus. Maent bob amser yn teimlo'n hapus, yn enwedig pan fyddant yn cael clod gan y staff a'r plant am gyfrif yn Gymraeg. Cafodd y plant ymdeimlad o gyflawniad ar ôl copïo dilyniant o liwiau a gwnaeth eraill ddangos eu llun o roced a'u henwau yn llawn balchder.

Mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i ganmoliaeth a roddir iddynt gan ffrindiau a'r staff yn ystod amser cylch. Maent yn gwenu pan fydd eraill yn dweud "*I like your hair*" ac "*I like your socks*" wrthynt. Mae'r plant yn dangos empathi tuag at ei gilydd drwy rannu. Er enghraifft, maent yn rhannu adnoddau buarth fferm ac yn hyderus wrth ofyn i'r staff i'w helpu i uno'r tractor a'r trelar. Pan oedd y plant yn ei chael hi'n anodd rhannu, gwnaethant ymateb yn gadarnhaol i'r staff yn tynnu eu sylw ac yn rhyngweithio â nhw, gan dderbyn teganau eraill. Mae'r plant yn dangos cydberthnasau cadarn â'r staff. Maent yn rhedeg at y staff i ddangos modelau toes chwarae, ac ar adegau eraill, maent yn rhedeg atynt am fwythau.

Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Maent yn chwarae gydag amrywiaeth o ardaloedd ac adnoddau, fel teganau byd bach, cegin chwarae rôl a thasgau lliwio a phaentio creadigol. Mae'r plant yn gyffrous i chwarae yn yr awyr agored. Er enghraifft, maent yn neidio ac yn sblasio mewn pyllau gan chwerthin yn iach. Maent yn mwynhau chwarae'n ddychmygol gan ddefnyddio ceir a modelau o bobl ac anifeiliaid. Mae'r plant yn canolbwyntio'n dda o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn canolbwyntio ar liwio a phaentio lolis am gyfnod priodol o amser.

Mae'r plant yn dod yn fwy annibynnol. Maent yn arllwys eu llaeth eu hunain yn hyderus ac yn helpu eu hunain i'w diodydd personol pan fo angen. Wrth iddynt gyrraedd y lleoliad, maent yn mynd â'u bagiau i'r ardal ddynodedig yn hyderus ac yn annibynnol ac yn gosod eu cotiau ar eu pegiau personol. Mae'r plant yn gyfrifol am fod yn 'helpwr y dydd' ac yn barchus iawn tuag at adnoddau'r lleoliad wrth dacluso, ac maent yn helpu eraill yn ystod amser byrbryd. Mae'r plant yn reidio beiciau a cheir yn hyderus. Maent yn llwyddiannus

wrth ddefnyddio sgiliau echddygol manwl i ysgrifennu enwau ac yn defnyddio torwyr ac offer i greu siapiau â'r toes chwarae. Yn ystod amser cinio, mae'r plant yn defnyddio'r cyfleoedd i dorri eu ffrwythau eu hunain.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn dilyn polisïau a gweithdrefnau er mwyn dileu unrhyw risgiau i iechyd y plant ac yn eu goruchwylio'n ddiogel. Mae'r staff yn sicrhau bod gan y plant fyrbrydau maethlon a diodydd yn ystod amser byrbryd. Caiff yr holl ardaloedd bwyd eu glanhau cyn i'r plant fwyta, a chânt eu hannog i olchi eu dwylo. Mae'r rhai sy'n paratoi bwyd ar gyfer y plant yn gwisgo cyfarpar diogelu personol ac maent wedi cwblhau hyfforddiant hylendid bwyd cyfredol. Mae'r staff yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau newid cewynnau a'r canllawiau rheoli heintiau yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn gwisgo cyfarpar diogelu personol i newid cewynnau'r plant ac yn sicrhau bod pob ardal yn lân rhwng pob plentyn. Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn plant. Gwnaethant ymateb yn hyderus i'r polisi diogelu mewn perthynas â'r hyn y byddent yn ei wneud os bydd pryder yn ymwneud â lles plentyn. Mae'r staff yn cadw cofnodion o ddigwyddiadau, damweiniau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes. Mae cofnodion meddyginiaethau a chynlluniau gofal iechyd ar waith, ac mae'r staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol i ddiwallu anghenion meddygol unigol y plant. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn llofnodi ar ôl rhoi meddyginiaeth. Maent yn gwybod pryd i weithredu ar anoddefiadau ac anghenion deietegol y plant. Mae'r holl staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a hyfforddiant ar ddiogelu.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n gadarnhaol, yn garedig ac yn llawn anogaeth. Maent yn hyrwyddo hunan-barch a hyder y plant. Er enghraifft, maent yn canmol y plant am ysgrifennu eu henw, am fod yn garedig ac am fwyta'n dda. Maent yn gwobrwyo cyflawniadau'r plant â sticeri. Mae'r staff yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol i reoli rhyngweithio'r plant. Gwnaethant annog y plant i fod yn ofalus pan wnaethant daro'r cadeiriau gwthio yn llawn cyffro ac yna eu hannog i ddefnyddio 'dwylo addfwyn' i rannu'r teganau ceir, a oedd yn llwyddiannus. Mae'r staff yn fodelau rôl da ac yn annog y plant i fod yn gwrtais. Maent yn annog y plant i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch' yn ystod amser byrbryd a chinio.

Mae'r staff yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn llwyddiannus. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion unigol y plant a'u dewisiadau. Er enghraifft, maent yn defnyddio asesiadau unigol ac arsylwadau i roi gwybod iddynt am gamau datblygiadu nesaf y plant. Caiff y wybodaeth hon ei rhannu â'r rhieni yn rheolaidd. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion dysgu ychwanegol ac maent yn cydnabod y ffordd i gael gafael ar ffynonellau cymorth yn yr awdurdod lleol. Maent wedi ymgorffori proffiliau 'un dudalen' ar gyfer pob plentyn. Mae'r staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol drwy gymryd rhan mewn sgyrsiau Cymraeg â'r plant wrth iddynt chwarae. Maent yn trafod lliwiau, siapiau, enwau anifeiliaid ac yn defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol. Maent yn canu caneuon Cymraeg i'r plant ac yn cael trafodaethau â'r plant am eu teimladau ac yn eu hannog i fod yn garedig ag eraill. Mae'r staff wedi ymgorffori cynlluniau 'yn y foment' yn seiliedig ar arsylwadau blaenorol o alluoedd a dewisiadau'r plant. Maent yn cynllunio rhai gweithgareddau sy'n hyrwyddo gwahanol ddiwylliannau ac amrywiaeth.

## Yr Amgylchedd **Da**

Mae gan yr arweinwyr systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae yna system ddiogelwch lle na all aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio tir yr ysgol heb ganiatâd. Gofynnir i'r holl ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn nodi unrhyw risgiau posibl ac yn eu dileu gymaint â phosibl drwy gwblhau gwiriadau dyddiol o'r amgylchedd. Mae ganddynt asesiadau risg manwl ar gyfer pob ardal a gweithgaredd dan do ac yn yr awyr agored yn y lleoliad, a chânt eu diweddaru'n rheolaidd. Caiff gwiriadau cynnal a chadw eu cyflawni, ac mae'r larymau tân a'r diffoddwyr tân yn cael eu cynnal a'u cadw a'u gwirio'n rheolaidd. Caiff yr asesiadau risg tân eu diweddaru, a chaiff yr ymarferion tân eu cynnal a'u cofnodi'n rheolaidd. Nid oes unrhyw gemegau niweidiol na meddyginiaethau yn yr ardaloedd sy'n hygyrch i'r plant. Mae cofnodion glanhau ar waith ac mae'r holl ardaloedd yn lân.

Mae'r lleoliad yn gweithredu yn yr ysgol gynradd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y safle yn gynnes, yn gyfforddus, ac yn groesawgar. Ceir byrddau a chadeiriau lle gall y plant gymdeithasu, chwarae, a bwyta, sydd o uchder addas ar gyfer camau datblygu'r plant. Ceir ardaloedd tawel a chyfleoedd i ymlacio a darllen pan fo angen. Mae'r toiledau wedi cael eu lleoli o fewn pellter byr i'r cylch, ac mae digon o doiledau, cymorthyddion toiledau a basnau golchi i'r plant. Mae'r ardal dan do yn fawr iawn ac wedi'i threfnu i hyrwyddo annibyniaeth, creadigrwydd, sgiliau iaith, a sgiliau datrys problemau'r plant. Mae'r ardal awyr agored yn fawr iawn ac yn cynnwys canopi cysgodol. Mae'r ardal yn hyrwyddo datblygiad corfforol a chreadigrwydd. Maent yn defnyddio ardaloedd eraill o dir yr ysgol weithiau, yn ogystal â mynd am dro ac ymweld ag amwynderau ac ardaloedd lleol.

Mae'r arweinwyr yn trefnu bod adnoddau o ansawdd da mewn ardaloedd gwahanol o'r ystafell. Mae ganddynt adnoddau gwneud marciau sydd ar gael i'r plant, teganau byd bach ac adeiladu, dillad gwisgo i fyny a chegin chwarae rôl, posau, yn ogystal â chornel ddarllen. Mae amrywiaeth o lyfrau Cymraeg a doliau ar gael sy'n hyrwyddo diwylliannau ac amrywiaeth. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff geirfa Gymraeg ei harddangos ar gyfer y tywydd, lliwiau, yr wyddor, themâu, a geirfa. Mae gwaith celf y plant yn cael ei arddangos sy'n hyrwyddo hunan-hyder y plant ac yn creu ymdeimlad o berthyn. Mae'r ardal awyr agored wedi cael ei threfnu'n llwyddiannus, gan gynnwys adnoddau chwarae corfforol a chydbwyso, a chegin fwd greadigol ac ardal bicnic.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth **Da**

Mae'r arweinwyr yn drefnus ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o'u gofynion rheoliadol ac maent yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae ganddynt bolisïau a gweithdrefnau sy'n cyrraedd y canllawiau cyfredol a'r gofynion, a chaiff y rhain eu bodloni gan y staff sy'n gweithredu. Fodd bynnag, ni chaiff yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchiad da o'r ffordd y caiff y lleoliad ei redeg ar hyn o bryd ac yn bodloni'r gofynion. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl staff wedi cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Maent yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofynnol yn cael eu cadw. Er enghraifft, mae contractau a chaniatadau ar gyfer y plant ar waith, yn ogystal â chofnodion presenoldeb ar gyfer y plant a'r staff.

Mae'r arweinwyr wedi cwblhau adroddiad ar ansawdd y gofal sy'n cynnwys barn y plant, rhieni, staff a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r adolygiadau yn gadarnhaol a chaiff camau eu cymryd mewn ymateb i'r adborth a gafwyd.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod digon o staff ar gael i fodloni'r cymarebau rhwng y staff a'r plant, ac yn aml maent yn mynd y tu hwnt iddynt. Maent yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae gwiriadau addasrwydd staff ar waith cyn iddynt gael eu cyflogi, a chaiff cyfnodau sefydlu o ansawdd eu hymgorffori. Caiff sesiynau goruchwylio ac arfarniadau eu cynnal, a chaiff datblygiad proffesiynol ei hyrwyddo. Mae'r staff wedi cael yr hyfforddiant ‘Cwricwlwm i Gymru’ yn ogystal â chyfleoedd hyfforddiant eraill i wella sgiliau lleferydd ac iaith y plant, cynllunio, asesu, a chwarae yn yr awyr agored. Mae'r arweinwyr wedi cwblhau'r datganiad hunanasesu gwasanaeth ac wedi rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am newidiadau i'r lleoliad.

Mae partneriaethau da ar waith. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod sawl ffordd o gyfathrebu â'r rhieni. Maent yn siarad â'r rhieni'n gadarnhaol. Maent yn diweddaru'r rhieni ar unrhyw faterion sy'n effeithio ar anghenion, dewisiadau a llesiant y plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y rhieni yn cael gwybod am newidiadau i'r lleoliad drwy ap webform ar-lein. Cânt wybod am gynnydd dyddiol y plant a chaiff arsylwadau gwahanol a lluniau eu rhannu â'r rhieni. Mae'r arweinwyr yn cyfathrebu'n dda â'r ysgol gynradd. Maent wedi sicrhau bod plant y lleoliad yn ymuno â diwrnodau chwaraeon yr ysgol a diwrnodau hwyl.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Sicrhau y caiff yr holl bolisïau a gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd |
| Safon 11 - Meddyginiaeth | Sicrhau y caiff llofnodion y rhieni eu cadw pan fydd meddyginiaethau'n cael eu rhoi |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 26/07/2024